Archaeoleg ar eich Stepen drws

# Sut i Adnabod Offer Carreg Cynhanesyddol

Drwy gydol y cyfnod cynhanesyddol roedd pobl yn creu offer allan o garreg. Mae'r canllaw hwn i'ch helpu chi i ddeall os yw carreg yn naturiol neu os yw wedi cael ei siapio gan berson yn y gorffennol.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

national museum wales
amgueddfa cymru





## Cerrig

Am filoedd o flynyddoedd roedd pobl y gorffennol yn dewis cerrig mân a mawr, neu graig wedi ei cgloddio, i'w troi yn offer yr oedd angen arnyn nhw i oroesi.

Mae carreg yn goroesi'n dda yn y ddaear, yn wahanol i ddeunyddiau organig fel esgyrn, pren neu ledr, ac mae'n aml yn cael ei ganfod ar wyneb y tir neu yn ystod cloddiadau archeolegol.

Gallwch ddod o hyd i nifer o offerynnau cynhanesyddol heddiw ... os ydych chi'n gwybod beth i chwilio amdano!



## Cnapio

Cnapio yw'r broses o dorri darnau bach o garreg gan ddefnyddio carreg fach neu forthwyl asgwrn i greu naddyn y gellir ei ddefnyddio i wneud offeryn defnyddiadwy.

Gall creu un offeryn yn unig arwain at gannoedd o naddion gwastraff.

Byddai'r person fyddai'n creu'r offeryn fel arfer yn taflu'r naddion. Bydd hwn yn aml yn goroesi i gael ei ganfod miloedd o flynyddoedd yn ddiweddarach!



## Nodweddion

Pan gaiff y garreg fach ei tharo gyda charreg forthwylio caiff nodweddion arbennig eu gadael ar eu hôl. Mae'r rhain yn creithio'r darn sydd wedi'i dorri i ffwrdd a'r craidd (y rhan o'r garreg fach sydd wedi ei gadael ar ei hôl).

Bydd gan y man lle mae'r ergyd wedi taro ardal fach wedi malu a chrac crwn. O dan hwn mae siâp côn yn lledaenu i fod yn ymchwydd crwn – dyma'r bwlb trawiad.

Mae tonnau yn pelydru o ganol y bwlb ar hyd y naddyn.




## Llaw Dyn neu Naturiol?

Gall nodweddion tebyg gael eu hachosi gan weithgarwch yr afon, y môr, sathru gan anifeiliaid, neu beirianwaith, ond gall rhain gael eu gwahanu oddi wrth ddarnau wedi eu creu â llaw dyn drwy edrych am gyfuniad o nodweddion.

Bydd offerynnau wedi eu creu gan ddyn yn fwy rheolaidd a phatrymog. Bydd gan naddyn greithiau wedi eu gadael ar eu hôl drwy dynnu darnau cynharach ar un wyneb a'r bwlb trawiad a thonnau ar y llall. Bydd gan y craidd bantiau sy'n cael eu gadael ar eu hôl wedi i naddion gael eu tynnu oddi yno.



## Offer carreg

Er mwyn troi naddyn yn offeryn caiff naddion bach eu tynnu o'r ymyl i'w siapio – mae hyn yn cael ei alw'n ailgyffwrdd.

Mae offerynnau gydag ymylon di-awch megis crafwyr, neu bwyntiau miniog megis pennau saethau yn cael eu creu yn y ffordd hyn. Mae ailgyffwrdd yn aml yn cynnwys gwasgnaddu – gwthio naddion bach o'r ymyl heb ei drin gan ddefnyddio darn o asgwrn neu flaen corn carw.